DocuSign Envelope ID [redacted]

PLAID CYMRU

Adroddiad A Datganiadau Ariannol
Cyfunol Archwiliedig

Am Y Flwyddyn Yn Diweddu 31 Rhagfyr 2023

DocuSign Envelope ID: [redacted]

PLAID CYMRU

Cynnwys Y Datganiadau Ariannol
Ar Gyfer Y Flwyddyn Yn Diweddu 31 Rhagfyr 2023

	Tud
Trosolwg o'r Blaid a Gweithgareddau Gwleidyddol	1-4
Adolygiad y Prif Weithredwr	5-6
Adroddiad y Trysorydd Cenedlaethol	7
Datganiad o Gyfrifoldebau'r Trysorydd Cenedlaethol	8
Adroddiad yr Archwiliwr Annibynnol i'r Aelodau	9-12
Cyfrif Incwm a Gwariant Cyfunol	13
Cyfrif Incwm a Gwariant y Blaid Ganolog	14
Mantolen Gyfunol	15
Mantolen y Blaid Ganolog	16
Datganiad Cyfunol o Lif Arian	17
Nodiadau ar y Datganiadau Ariannol	18-31

DocuSign Envelope ID [redacted]

PLAID CYMRU

Trosolwg o'r Blaid a Gweithgareddau Gwleidyddol Am Y Flwyddyn Yn Diweddu 31 Rhagfyr 2023

Sefydlwyd Plaid Cymru – The Party of Wales yn 1925 a bu'n ysgogi newidiadau cyfansoddiadol yng Nghymru ers 99 mlynedd.

Pencadlys y Blaid

Plaid Cymru – The Party of Wales
Tŷ Gwynfor
Marine Chambers
Anson Court
Atlantic Wharf
Caerdydd
CF10 4AL

Nodau

Fel Plaid Genedlaethol Cymru, nodau Plaid Cymru yw:

- Sicrhau annibyniaeth i Gymru yn Ewrop.
- Sicrhau ffyniant economaidd, cyfiawnder cymdeithasol ac iechyd yr amgylchedd naturiol, yn seiliedig ar sosialaeth ddatganolaidd
- Adeiladu cymuned genedlaethol yn seiliedig ar ddinasyddiaeth gyfartal, parch at draddodiadau gwahanol a diwylliannau a gwerth cyfartal pob unigolyn, beth bynnag fo'u hil, cenedligrwydd, rhyw, lliw, credo, rhywioldeb, oedran, gallu neu gefndir cymdeithasol. Dyma werthoedd craidd y Blaid.
- Creu cymdeithas ddwyieithog drwy hybu adfywiad yr iaith Gymraeg.
- Hyrwyddo cyfraniad Cymru i'r gymuned fyd-eang ac ennill aelodaeth o'r Unedig Cenhedloedd.

Swyddogion Cofrestredig

Swyddogion Cofrestredig o dan Ddeddf Partïon Gwleidyddol, Etholiadau a Refferendwm 2000:

Arweinydd	Adam Price (hyd Mai 2023); Rhun ap Iorwerth o hyn ymlaen.
Arweinydd	Llŷr Gruffydd (o Fai 2023)
Dros dro	
Trysorydd	D Marc Phillips
Swyddog Enwebu	Geraint Day (o Ionawr – Mai 2023); Dr Owen Roberts (o hyn ymlaen)

Sefydliad

Aelodaeth

Disgrifir y gweithdrefnau sy'n llywodraethu ceisiadau aelodaeth yn Rheolau Sefydlog y Blaid. Bu i'r aelodaeth barhau'n gymharol ddisymud yn ystod 2023.

DocuSign Envelope ID [redacted]

PLAID CYMRU

Trosolwg o'r Blaid a Gweithgareddau Gwleidyddol
Am Y Flwyddyn Yn Diweddu 31 Rhagfyr 2023

Pwyllgorau'r Etholaethau
Yr etholaeth yw prif lefel trefniadaeth Plaid Cymru ac mae'n gyfrifol am weithgarwch y blaid o fewn pob un o'r 40 ffiniau etholaethau Senedd/ Westminster. Mae etholaethau'n cael ad-daliad chwarterol o 30% o danysgrifiadau a delir gan bob un o'u haelodau. O ran y taliadau a wnaed yn 2021, rhoddwyd mwy na £1 miliwn i etholaethau lleol dros y naw mlynedd diwethaf. Bydd y strwythur hwn yn gweld adolygiad sylweddol yn ystod 2023 er mwyn adlewyrchu'r newidiadau a ragwelir yn ffiniau'r etholaethau.

Canghennau
Mae Pwyllgorau'r Etholaethau yn cael eu hannog i adnabod, sefydlu a chefnogi rhwydwaith o ganghennau o fewn eu hetholaethau. Mae'r rhan fwyaf, ond nid pob cangen yn seiliedig ar wardiau etholaethol unigol neu ar gyfuniad o wardiau etholaethol o fewn etholaeth. Mae gan Gangen o leiaf 10 aelod, maent â chynrychiolaeth ar y Pwyllgor Etholaethol ac maent yn gyfrifol am weithredu agenda'r blaid ar lefel leol.

Adrannau Cenedlaethol
Gall aelodau o'r blaid sy'n dymuno darparu ar gyfer buddiannau penodol, ffurfio adrannau, a gallant wneud cais i'r Cyngor Cenedlaethol am gydnabyddiaeth fel Adrannau cenedlaethol swyddogol y blaid. Ar 31 Rhagfyr 2022 roedd:-

Adran Ieuenctid ("Plaid Ifanc")
Adran y Merched ("Merched Plaid")
Undeb Llafur ("Undeb")
Cymdeithas Cynghorwyr (Cynghorwyr Tref, Cymunedol a Sir)
Plaid Pride (LGBTQ+).
Plaid BAME (Du ac Ethnig Lleiafrifol).

Cyngor Cenedlaethol
Y Cyngor Cenedlaethol yw corff llywodraethu'r blaid rhwng cynadleddau ac mae'n cyfarfod o leiaf deirgwaith y flwyddyn. Yn ogystal â chlywed adroddiadau gan Swyddogion Cenedlaethol, mae gan y Cyngor Cenedlaethol hefyd y pŵer i lunio polisi. Mae aelodaeth Cyngor Cenedlaethol yn cynnwys cynrychiolwyr o Bwyllgorau etholaeth, Adrannau, Pwyllgor Gwaith Cenedlaethol, Cynrychiolwyr Etholedig, (Aelodau o Senedd Lloegr a Chymru) Swyddogion Cenedlaethol ac arweinwyr y Cyngor Sir.

Tîm Arweinwyr
Mae'r Tîm Arweinwyr yn gyfrifol am oruchwylio tactegau gwleidyddol y blaid o ddydd i ddydd a gweithrediad gweithredol strategaeth y blaid. Mae'r aelodau'n cynnwys Arweinydd Plaid Cymru, Dirprwy Arweinydd, Cadeirydd, Trysorydd, Arweinydd Grŵp Seneddol, Cynrychiolydd Llywodraeth Leol, Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu.

DocuSign Envelope ID [redacted]

PLAID CYMRU

Trosolwg o'r Blaid a Gweithgareddau Gwleidyddol
Am Y Flwyddyn Yn Diweddu 31 Rhagfyr 2023

Cynrychiolwyr Etholedig

Mae Plaid Cymru yn cynnwys ymgeiswyr mewn etholiadau i awdurdodau lleol Cymru, Senedd Cymru, Tŷ'r Cyffredin a Chomisiynydd yr Heddlu a Throseddu.

O fis Rhagfyr 2023 mae cynrychiolaeth Plaid Cymru ym mhob un fel a ganlyn:-

- 13 Aelod Senedd Cymru
- 3 Aelod Seneddol.
- 201 o Gynghorwyr Awdurdod Lleol
- 1 Comisiynydd Heddlu a Throseddu
- 1 Aelod o Dŷ'r Arglwyddi (heb ei ethol)

Pwyllgor Gwaith Cenedlaethol

Mae'r Pwyllgor Gwaith Cenedlaethol (NEC) yn gyfrifol am gytuno ar gyfeiriad strategol a gwleidyddol y blaid; sicrhau bod penderfyniadau'r Gynhadledd a'r Cyngor yn cael eu rhoi ar waith; rheoli trefniadaeth a chyllid y blaid; craffu ar waith yr holl unigolion a thimau sydd â chyfrifoldeb am roi'r strategaeth ar waith; trefnu a chyfarwyddo ymgyrchoedd cenedlaethol; cyflogi staff; a pherchnogaeth a rheoli asedau'r blaid. Er mwyn ymgymryd â'r gwaith, mae gan yr NEC rwydwaith o is-bwyllgorau sy'n adrodd nôl ym mhob un o gyfarfodydd yr NEC. Mae aelodau'r NEC yn cael eu hethol yn y Gynhadledd Flynyddol ac maent yn gwasanaethu am ddwy flynedd gyda 50% o'r NEC yn cael eu hethol bob blwyddyn. Mae aelodaeth yr NEC fel a ganlyn:

Swyddogion Cenedlaethol

Cadeirydd
Arweinydd y Blaid
Trysorydd
Cadeirydd Llywio

Cyfarwyddwyr

Cyfarwyddwr Etholiadau ac Ymgyrchoedd
Cyfarwyddwr Hawliau Cyfartal
Cyfarwyddwr Polisi
Cyfarwyddwr Cyfathrebu
Cyfarwyddwr Codi Arian
Cyfarwyddwr Materion Rhyngwladol
Cyfarwyddwr Trefnu, Hyfforddiant a Datblygu

Grwpiau Etholedig

Cynrychiolydd o Grŵp Westminster
Cynrychiolydd o Grŵp y Senedd
Cynrychiolydd o Arweinwyr Llywodraeth Leol
Cynrychiolydd o Gomisiynydd Heddlu a throseddu.

PLAID CYMRU

Trosolwg o'r Blaid a Gweithgareddau Gwleidyddol Am Y Flwyddyn Yn Diweddu 31 Rhagfyr 2023

Cydlynwyr Rhanbarthol

Gogledd Cymru -	2 = (1 dyn ac 1 ddynes)
Canolbarth a Gorllewin Cymru	2 = (1 dyn ac 1 ddynes)
Gorllewin De Cymru	2 = (1 dyn ac 1 ddynes)
Canol De Cymru	2 = (1 dyn ac 1 ddynes)
Dwyrain De Cymru	2 = (1dyn ac 1 ddynes)

Adrannau Cenedlaethol

1 cynrychiolydd o'r Adrannau Cenedlaethol cysylltiedig cydnabyddedig.

Staff Plaid Cymru

Mae Plaid Cymru yn cael ei gwasanaethau gan dîm bychan o staff proffesiynol sy'n cefnogi'r aelodau, y gwirfoddolwyr, ymgeiswyr a'r cefnogwyr. Ar ddechrau 2023 i gydnabod y cyfrifoldebau ychwanegol a'r anghenion yn arwain at etholiad y Senedd ym Mai, cyflogodd Plaid Cymru 12 aelod o staff amser llawn neu ran amser o dan arweinyddiaeth y Swyddog Prif Weithredol, Dr Owen Roberts.

Yn Ionawr 2023 bu i Geraint Day gymryd yr awenau fel Prif Weithredwr Dros Dro wedi ymadawiad Carl Harris, ac apwyntiwyd Dr Owen Roberts yn barhaol yn ei le ym Mai 2023.

Rhennir y staff yn gyfres o dimau cyd-ddibynnol, sef:

- Ymgyrchoedd
- Polisi
- Cyfathrebu
- Gweinyddol, Aelodaeth, Cyllid, Adnoddau Dynol a Cydymffurfio.

DocuSign Envelope ID [redacted]

PLAID CYMRU

Adroddiad Swyddogion Y Blaid
Ar Gyfer Y Flwyddyn yn diweddu 31 Rhagfyr 2023

Adolygiad y Prif Weithredwr

Roedd 2023, yn flwyddyn neilltuol lle nad oedd unrhyw gystadlaethau etholiadol mawr, gyda'r potential i atgyfnerthu ac i ad-drefnu'n fewnol.

Ym mis Mawrth, cynhaliwyd y Gynhadledd Wanwyn yn Llanelli, lle pasiwyd strategaeth wleidyddol newydd oedd wedi bod yn destun ymgynghori eang yn ystod y misoedd blaenorol.

Fodd bynnag, yn hwyr yn y gwanwyn a'r haf wynebodd Plaid Cymru ansefydlogrwydd gwleidyddol mawr. Cyhoeddwyd yr adroddiad Prosiect Pawb gan Nerys Evans ar ddiwylliannau gweithio o fewn y blaid ac fel y disgwylid, amlygwyd yr angen am newid sylweddol. Rhoddwyd rhaglen ar waith i wella arferion Adnoddau Dynol, i daclo casineb at wragedd ac ymddygiad anaddas ac i gryfhau trefn llywodraethu.

Yn fuan wedyn, bu'n rhaid i'r blaid wynebu arweinyddiaeth newydd wrth i Adam Price ymddiswyddo. Bu Llŷr Gruffydd yn arwain am gyfnod byr, dros dro cyn i Rhun ap Iorwerth gychwyn fel arweinydd y blaid yn dilyn etholiad heb ei herio.

Bu gweithredu adroddiad Prosiect Pawb yn brif ffocws i'r blaid yn ystod ail hanner y flwyddyn. Gwnaed cynnydd sylweddol yn nhermau'r gwaith a oedd eisoes yn mynd rhagddo i wella ymarferion Adnoddau Dynol ac i sefydlu polisïau newydd yn ymwneud â materion disgyblaeth ac aelodaeth. Roedd rhai o'r newidiadau hyn yn golygu diwygio'r Rheolau Sefydlog, ac fe basiwyd rhain cyn diwedd y flwyddyn. Cynhaliwyd cynhadledd staff ac ail-sefydlwyd cangen undeb llafur ar gyfer staff Plaid Cymru. Yn hwyrach yn y flwyddyn, datgelodd arolygon staff welliant sylweddol mewn morâl a boddhad.

Ar ddiwedd y flwyddyn, roedd gwaith yn mynd yn ei flaen i gryfhau llywodraethiant mewnol ac i wella hyfforddiant staff ymhellach. Derbyniwyd cyngor allanol arbenigol i sicrhau bod y blaid yn dilyn arfer dda wrth ddelio gyda materion aflonyddu rhywiol. Bwriadwyd cwblhau'r gwaith erbyn dechrau haf 2024.

Roedd newid ffiniau etholiadau Westminster ar raddfa eang a'r shifft debygol i system etholiadol hollol wahanol Y Senedd yn golygu newidiadau trefniadol sylweddol sylfaenol. Roedd sichrau bod rheoli hyn yn effeithiol yn flaenoriaeth i'r blaid. Erbyn diwedd y flwyddyn, roedd y mwyafrif o'r cyfundrefnau etholiadol newydd wedi eu sefydlu ar sail gadarn, er bod angen peth gwaith mewn mannau gwannach.

Roedd rhai gweithgareddau craidd megis recriwtio aelodaeth a chodi arian yn llawer mwy anodd na'r arfer oherwydd y cyd-destun gwleidyddol a threfniadol uchod ynghyd â phroblemau costau byw cyfredol. Bu i nifer yr aelodau barhau i ddisgyn yn ystod y flwyddyn, er i bethau lefelu erbyn diwedd y cyfnod.

Ymunais fel Prif Weithredwr yn hwyr yn Ebrill 2023. Roeddwn wedi dynodi blaenoriaethau allweddol – sicrhau strwythur staffio a diwylliant staff effeithiol, moderneiddio aelodaeth a dulliau codi arian, gwella cyfathrebu mewnol led-led y blaid a chryfhau'r diwylliant ymgyrchu ar lefel sylfaenol.

Rwyf wedi derbyn cefnogaeth gref oddi wrth yr arweinydd a swyddogion cenedlaethol y blaid, yn ogystal ag wrth dîm bychan, galluog ac ymroddedig staff uwch Tŷ Gwynfor.

Roedd gweithredu newidiadau cyflym yn her oherwydd y cyfnod cythryblus gwleidyddol yn ystod fy misoedd cynnar yn y rôl. Lluniwyd strategaethau newydd yn ymwneud â chyfathrebu mewnol ac aelodaeth, a rhoddwyd rhai diwygiadau ar waith, ond ni weithredwyd newidiadau mwy sylfaenol tan ddiwedd y flwyddyn.

Cafwyd ad-drefniant staff yn yr hydref. Lleihawyd costau staff a chreuwyd strwythur newydd gyda threfn rheoli llinell mwy clir. Roedd y strwythur yn fwy addas ar gyfer heriau etholiadol a threfniadol oedd yn wynebu'r blaid a buddsoddwyd mewn cyfathrebu digidol a chreu polisi.

Ar y cyfan, roedd y blaid yn sylweddol fwy sefydlog yn wleidyddol erbyn diwedd y flwyddyn, oedd yn rhoi cyfle am dwf yn 2024.

[redacted]

Dr Owen Roberts
Prif Weithredwr

Dyddiad 02-07-2024

DocuSign Envelope ID: [redacted]

PLAID CYMRU

Adroddiad y Trysorydd Cenedlaethol
Am y flwyddyn yn diweddu 31 Rhagfyr 2023

Adroddiad y Trysorydd

Dengys y cyfrifon hyn bod y Blaid unwaith eto wedi llwyddo gorffen y flwyddyn gan ddangod elw bychan, gan adlewyrchu rheolaeth priodol dros wariant. Mae rhai o'r arbedion hyn yn deillio o adolygiad eang o'n strwythurau ac anghenion staffio yn dilyn penodi Prif Weithredwr newydd ganol y flwyddyn. Ond yn anffodus gwelir hefyd bod gostyngiad yn lefel ein hincwm. Fel mudiad sydd yn llwyr ddibynnol ar ein haelodaeth ac ar niferoedd mawr o roddion bychain gan gefnogwyr unigol rydym hefyd yn cael ein heffeithio gan ffactorau allanol. Wrth i incwm teuluoedd gael ei wasgu, mae cyfyngiadau ar allu unigolion i wario ar bethau fel tâl aelodaeth ac ymateb i apeliadau ariannol. Mae cynnal ein pennau uwch y dŵr yn beth positif yn yr hinsawdd yma, ond mae'n annigonol i arwain at y math o dyfiant cydnaws â'n huchelgais gwleidyddol.

Rhoddion trwy ewyllysiau yw ein prif gyfrwng i adeiladu Cronfa ymgyrchu a fydd yn ein cynnal trwy Etholiad cyffredinol San Steffan yn 2024 a gosod y sylfaen ar gyfer her Etholiadau'r Senedd yn 2026.

Fel ag erioed rydym yn hynod ddiolchgar i gefnogwyr unigol, a'u teuluoedd sydd wedi cyfrannu, boed yn rheolaidd neu yn achlysurol, ac i'r sawl sydd wedi gadael cymynroddion – rhai bach, rhai sylweddol, ond pob yn un cael eu gwerthfawrogi gennym.

Er hyn, ni welwyd cynnydd mewn ffigyrau aelodaeth. Gobeithio y gwelwn momentwm newydd wrth recriwtio yn sgîl Etholiad Cyffredinol 2024. Mae llwyddiant yn esgor ar lwyddiant ac mae cerrig milltir fel hyn yn y calendr ymgyrchu yn cael effaith nid yn unig ar ysbryd y Blaid ond hefyd ar ein iechyd ariannol.

Gorwedd cyfrifoldeb am reolaeth ariannol ddydd-i-ddydd yn nwylo diogel ein Pennaeth Cyllid, Cydymffurfiaeth ac Adnoddau Dynol, Paula Reed, ac yr wyf yn hynod ddiolchgar iddi. Mae arnaf ddyled hefyd i i'n Pwyllgor Cyllid diwyd ac i'r Pwyllgor Awdit a Risg sydd bob amser yn cynnig gorolwg doeth a gwrthrychol.

[redacted]
Marc Phillips
Trysorydd

Dyddiad: 02-07-2024

DocuSign Envelope ID [redacted]

PLAID CYMRU

Datganiad o Gyfrifoldebau'r Trysorydd Cenedlaethol
Ar Gyfer Y Flwyddyn Yn Diweddu 31 Rhagfyr 2023

Mae Deddf Pleidiau Gwleidyddol, etholiadau a Refferenda 2000 yn ei gwneud yn ofynnol i Drysorydd Cenedlaethol y blaid baratoi'r datganiadau ariannol ar gyfer pob Blwyddyn ariannol sy'n rhoi darlun gwir a theg o sefyllfa'r blaid ac o warged neu ddiffyg ar gyfer y cyfnod hynny. Wrth baratoi'r datganiadau ariannol hynny, mae'n ofynnol i'r Trysorydd Cenedlaethol;

- Ddewis polisïau cyfrifyddu addas a'u cymhwyso'n gyson;
- Gwneud dyfarniadau ac amcangyfrifon sy'n rhesymol a doeth;
- Datgan a ddilynwyd safonau cyfrifyddu cymwys, yn amodol ar unrhyw wyriadau perthnasol a ddatgelir ac a eglurwyd yn y datganiadau ariannol; a
- Paratoi'r datganiadau ariannol ar sail hyfywedd oni bai ei bod yn amhriodol rhagdybio y bydd y blaid yn parhau mewn busnes

Mae Adran 41 o'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i'r Trysorydd Cenedlaethol fod yn gyfrifol am gadw cofnodion cyfrifyddu cywir sy'n datgelu gyda chywirdeb rhesymol ar unrhyw adeg sefyllfa ariannol y blaid ac i'w galluogi i sicrhau bod y datganiadau ariannol yn cydymffurfio a'r Ddeddf. Mae'r Trysorydd Cenedlaethol hefyd yn gyfrifol am ddiogelu asedau'r blaid ac felly am gymryd camau rhesymol i atal a chanfod twyll ac afreoleidd-dra arall

Mae Adran 43 o'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i'r Trysorydd Cenedlaethol fod yn gyfrifol am gyflwyno'r datganiad cyfrifon i'r Comisiwn Etholiadol erbyn y terfyn amser gofynnol.

Mae'r Trysorydd Cenedlaethol wedi cymryd pob cam y dylai fod wedi'i gymryd i'w gwneud yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth sydd ei hangen ar yr archwilydd at ddiben ei archwiliad ac i sefydlu bod yr archwilydd yn ymwybodol o'r wybodaeth honno. Nid yw'r Trysorydd Cenedlaethol yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth berthnasol nad yw'r archwilydd yn ymwybodol ohoni.

DocuSign Envelope ID [redacted]

PLAID CYMRU

Adroddiad Yr Archwilydd Annibynnol i Aelodau Plaid Cymru

Barn

Rydym wedi archwilio datganiadau ariannol Plaid Cymru am y flwyddyn yn diweddu 31 Rhagfyr 2023 sy'n cynnwys y Cyfrif Incwm a Gwariant Cyfunol, Cyfrif Incwm a Gwariant y Blaid Ganolog, y Fantolen Gyfunol, Mantolen Ganolog y Blaid, y Datganiad Llif Arian Cyfunol a nodiadau ar y datganiadau ariannol, gan gynnwys crynodeb o bolisïau cyfrifyddu arwyddocaol. Y fframwaith adrodd ariannol a ddefnyddiwyd wrth eu paratoi yw'r gyfraith berthnasol a Safonau Cyfrifo'r Deyrnas Unedig, gan gynnwys Safon Adrodd Ariannol 102, y Safon Adrodd Ariannol sy'n gymwys yn y DU a Gweriniaeth Iwerddon (arferion Cyfrifyddu a Dderbynnir yn Gyffredinol yn y Deyrnas Unedig)

Yn ein barn ni, mae'r datganiadau ariannol:

- Yn rhoi darlun cywir a theg o gyflwr materion Cyfunol a Chanolog Plaid Cymru ar 31 Rhagfyr 2023 ac o warged Cyfunol a Chanolog Plaid Cymru am y flwyddyn ddaeth i ben bryd hynny:
- Wedi'u paratoi'n briodol yn unol ag Arferion Cyfrifyddu a Dderbynnir yn Gyffredinol yn y Deyrnas Unedig;
- Wedi'u paratoi yn unol â gofynion Deddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000 a chyfarwyddyd arall a chyhoeddwyr gan Gomisiwn Etholiadol o dan y Ddeddf honno.

Sail i'r Farn

Cynhaliwyd ein harchwiliad yn unol â Safonau Archwilio Rhyngwladol (SAR) (DU) a chyfraith berthnasol. Disgrifiwn gyfrifoldebau o dan y safonau hynny ymhellach yn adran cyfrifoldebau'r Archwilydd ar gyfer archwilio datganiadau ariannol ein hadroddiad. Rydym yn annibynnol o'r Blaid yn unol â'r gofynion moesegol sy'n berthnasol i'n harchwiliad o'r datganiadau ariannol yn DU, gan gynnwys Safon Foesegol yr FRC, ac rydym wedi cyflawni ein cyfrifoldebau moesegol eraill yn unol â'r gofynion hyn. Credwn fod y dystiolaeth archwilio a gawsom yn ddigonol ac yn briodol i ddarparu sail ar gyfer ein barn

Casgliadau yn ymwneud â busnes gweithredol

Nid oes gennym unrhyw beth i'w adrodd mewn perthynas â'r materion a ganlyn y mae'r SAR (DU) yn ei gwneud yn ofynnol i ni adrodd i chi yn eu cylch:

- Nid yw defnydd y Trysorydd Cenedlaethol o sail hyfyw cyfrifyddu wrth baratoi'r datganiadau ariannol yn briodol; neu
- Nid yw'r Trysorydd Cenedlaethol wedi datgelu yn y datganiadau ariannol unrhyw ansicrwydd perthnasol a nodwyd a allai achosi amheuaeth sylweddol ynghylch gallu'r Blaid i barhau i fabwysiadu sail busnes hyfyw cyfrifyddu am gyfnod o leiaf deuddeg mis o ddyddiad cyhoeddi ac awdurdodi'r datganiadau ariannol.

Gwybodaeth Arall

Y Trysorydd Cenedlaethol sy'n gyfrifol am y wybodaeth arall. Mae'r wybodaeth arall yn cynnwys y wybodaeth sydd wedi'i chynnwys yn y Trosolwg o'r Blaid a gweithgareddau Gwleidyddol, Adolygiad y Prif Weithredwr ac Adroddiad y Trysorydd Cenedlaethol, ac eithrio'r datganiadau ariannol ac adroddiad ein harchwilydd arnynt. Nid yw ein barn ar y datganiadau ariannol yn cwmpasu'r wybodaeth arall ac eithrio i'r graddau a nodir yn benodol fel arall yn ein hadroddiad. Nid ydym yn mynegi unrhyw fath o sicrwydd ar y casgliad hynny.

DocuSign Envelope ID [redacted]

PLAID CYMRU

Adroddiad Yr Archwilydd Annibynnol i Aelodau Plaid Cymru

Mewn cysylltiad â'n harchwiliad o'r datganiadau ariannol, ein cyfrifoldeb ni yw darllen y wybodaeth arall ac, wrth wneud hynny, ystyried a yw'r wybodaeth arall yn sylweddol anghyson â'r datganiadau ariannol neu a yw'n ymddangos bod ein gwybodaeth a gafwyd yn yr archwiliad neu fel arall wedi'i cham-ddatgan yn sylweddol. Os byddwn yn nodi anghysondebau perthnasol o'r fath neu'r hyn sy'n ymddangos yn gamddatganiadau perthnasol, mae'n ofynnol i ni benderfynu a oes camddatganiad sylweddol yn y datganiadau ariannol neu gamddatganiad perthnasol yn y wybodaeth arall. Os byddwn yn dod i'r casgliad, yn seiliedig ar y gwaith rydym wedi'i wneud, fod yna gamddatganiad sylweddol o'r wybodaeth arall mae'n ofynnol i ni adrodd y ffaith honno.

Nid oes gennym ddim i'w adrodd yn hyn o beth.

Barn ar faterion eraill

Yn ein barn ni, mae'r wybodaeth a roddir yn y Trosolwg o'r Blaid a Gweithgareddau Gwleidyddol, Adolygiad y Prif Weithredwr ac Adroddiad y Trysorydd Cenedlaethol ar gyfer y flwyddyn ariannol y paratowyd y datganiadau ar ei chyfer yn gyson â'r datganiadau ariannol.

Materion y mae'n ofynnol i ni adrodd arnynt drwy eithriad

Yng ngoleuni gwybodaeth a dealltwriaeth y Blaid, ei hunedau cyfrifyddu a'r amgylchedd yn ystod yr archwiliad, nid ydym wedi dynodi camddatganiadau perthnasol yn y Trosolwg o'r Blaid a Gweithgareddau Gwleidyddol, Adolygiad y Prif Weithredwr ac Adroddiad y Trysorydd Cenedlaethol.

Nid oes gennym unrhyw beth i'w adrodd mewn perthynas â'r materion canlynol sy'n ei gwneud yn ofynnol i ni adrodd i chi os, yn ein barn ni:

- Ni chadwyd cofnodion cyfrifyddu digonol, neu ni dderbyniwyd ffurflenni sy'n ddigonol ar gyfer ein harchwiliad gan ganghennau nad ydym wedi ymweld â hwy; neu
- Nid yw'r datganiadau ariannol yn gyson â'r cofnodion a'r ffurflenni cyfrifyddu neu;
- Nid yw rhai datgeliadau o wybodaeth sy'n ofynnol yn gyfreithiol yn cael eu gwneud; neu
- Nid ydym wedi derbyn yr holl wybodaeth ac esboniadau sydd eu hangen arnom ar gyfer ein harchwiliad.

Cyfrifoldebau'r Trysorydd Cenedlaethol

Fel yr eglurir, yn llawnach yn natganiad cyfrifoldebau'r Trysorydd Cenedlaethol, (a nodir ar dudalen 8), mae'r Trysorydd Cenedlaethol yn gyfrifol am baratoi'r datganiadau ariannol, ac am fod yn fodlon eu bod yn rhoi darlun cywir a theg, ac am y fath reolaeth fewnol a bennir yn angenrheidiol er mwyn gallu paratoi datganiadau ariannol sy'n rhydd o gamddatganiadau sylweddol, boed hynny oherwydd twyll neu gamgymeriad.

Wrth baratoi'r datganiadau ariannol, mae'r Trysorydd Cenedlaethol yn gyfrifol am asesu gallu'r Blaid i barhau fel busnes hyfyw, gan ddatgelu, fel y bo'n berthnasol, faterion sy'n ymwneud â busnes gweithredol a defnyddio busnes hyfyw yn sail i'r cyfrifyddu.

DocuSign Envelope ID [redacted]

PLAID CYMRU

Adroddiad Yr Archwilydd Annibynnol i Aelodau Plaid Cymru

Cyfrifoldebau'r Archwilydd am archwilio'r datganiadau ariannol

Ein hamcanion yw cael sicrwydd rhesymol ynghylch a yw'r datganiadau ariannol yn eu cyfanrwydd yn rhydd o gamddatganiadau perthnasol, boed hynny oherwydd twyll neu gamgymeriad, a chyhoeddi adroddiad archwilydd sy'n cynnwys ein barn. Mae sicrwydd rhesymol yn lefel uchel o sicrwydd ond nid yw'n warant y bydd archwiliad a gynhelir yn unol ag ISAs (DU) bob amser yn canfod camddatganiad perthnasol pan fydd yno. Gall camddatganiadau ddeillio o dwyll neu gamgymeriad ac fe'u hystyrir yn berthnasol os, yn unigol neu gyda'i gilydd, y gellid yn rhesymol ddisgwyl iddynt ddylanwadu ar benderfyniadau economaidd defnyddwyr a wneir ar sail y datganiadau ariannol hyn.

Mae afreoleidd-dra, gan gynnwys twyll, yn enghreifftiau o ddiffyg cydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau. Rydym yn cynllunio gweithdrefnau yn unol â'n cyfrifoldebau, a amlinellwyd uchod, i ganfod camddatganiadau perthnasol mewn perthynas ag afreoleidd-dra, gan gynnwys twyll. Manylir isod i ba raddau y mae ein gweithdrefnau'n gallu canfod afreoleidd-dra, gan gynnwys twyll;

Yn seiliedig ar ein dealltwriaeth o'r Blaid, fe wnaethom nodi bod y prif risgiau o beidio â chydymffurfio a chyfreithiau a rheoliadau yn ymwneud â thorri egwyddorion rheoleiddio'r DU, megis y rhai a reolir gan y Comisiwn Etholiadol, ac fe wnaethom ystyried i ba raddau y gallai diffyg cydymffurfio gael effaith sylweddol ar y datganiadau ariannol. Gwnaethom hefyd ystyried y cyfreithiau a'r rheoliadau hynny sy'n cael effaith uniongyrchol ar y datganiad ariannol megis Deddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000. Gwerthuswyd cymhellion y rheolwyr a'r cyfleodd ar gyfer trin y datganiadau ariannol yn dwyllodrus (gan gynnwys y risg o ddiystyru rheolaethau). Roedd y gweithdrefnau archwilio a gyflawnwyd yn cynnwys:

- Trafodaethau gyda rheolwyr a swyddogion, gan gynnwys ystyried achosion hysbys o ddiffyg cydymffurfio a chyfreithiau a rheoliadau;
- Adolygu ffurflenni chwarterol a gyflwynir i'r Comisiwn Etholiadol mewn perthynas â chydymffurfio a chyfreithiau a rheoliadau;
- Adolygu cofnodion cyfarfodydd perthnasol y pwyllgorau Cyllid ac Archwilio, Risg a Chydymffurfiaeth;
- Dethol sampl o drafodion a'u holrhain at ddogfennaeth i sefydlu eu bod yn drafodion busnes dilys;
- Cynllunio gweithdrefnau archwilio i ymgorffori natur anrhagweladwy parthed natur, amseriad neu raddau ein profion; a
- Dynodi trafodion mawr neu anarferol i sichrau ein bod wedi deall y rhesymu tu ôl iddynt a'n cytuno eu bod yn addas.
- Dethol sampl o drafodion a'u dilyn I'r dogfennau perthnasol er mwyn sefydlu eu bod yn weithrediadau busnes bona fide.

Mae cyfyngiadau cynhenid yn y gweithdrefnau archwilio a ddisgrifir uchod. Rydym yn llai tebygol o ddod yn ymwybodol o achosion o ddiffyg cydymffurfio a chyfreithiau a rheoliadau os nad ydynt yn perthyn yn agos i ddigwyddiadau a thrafodion a adlewyrchir yn y datganiadau ariannol.

Fel rhan o archwiliad yn unol â SAR (DU), rydym yn arfer barn broffesiynol ac yn arfer amheuaeth broffesiynol drwy gydol yr archwiliad. Rydym hefyd yn;

- Nodi ac asesu risgiau camddatganiad sylweddol yn y datganiadau ariannol, boed hynny oherwydd twyll neu gamgymeriad, cynllunio a pherfformio gweithdrefnau archwilio sy'n ymateb i'r risgiau hynny, a chael tystiolaeth archwilio sy'n ddigonol ac yn briodol i ddarparu sail i'n barn. Mae'r risg o beidio â chanfod camddatganiad sylweddol o ganlyniad i dwyll yn uwch nag ar gyfer un sy'n deillio o gamgymeriad oherwydd gall twyll gynnwys cydgynllwynio, ffugio, hepgoriadau bwriadol, camliwiadau, neu ddiystyru rheolaeth fewnol.

PLAID CYMRU

Adroddiad Yr Archwilwyr Annibynnol i Aelodau Plaid Cymru

Cyfrifoldebau'r Archwilydd am archwilio'r datganiadau ariannol

- Dod i ddeall rheolaeth fewnol sy'n berthnasol i'r archwiliad er mwyn llunio gweithdrefnau archwilio sy'n briodol o dan yr amgylchiadau, ond nid at ddiben mynegi barn ar effeithiolrwydd rheolaeth fewnol y blaid

- Gwerthuso priodoldeb y polisïau cyfrifyddu a ddefnyddiwyd a rhesymoldeb yr amcangyfrifon cyfrifyddu a'r datgeliadau cysylltiedig a wnaed yn y datganiadau ariannol.

- Dod i'r casgliad ar briodoldeb y defnydd o gyfrifo ar sail busnes hyfyw ac, yn seiliedig ar y dystiolaeth archwilio a gafwyd, a oes ansicrwydd perthnasol yn bodoli mewn perthynas â digwyddiadau neu amodau a allai fwrw amheuaeth sylweddol ar allu'r blaid i barhau fel busnes hyfyw. Os byddwn yn dod i'r casgliad bod ansicrwydd sylweddol yn bodoli, mae'n ofynnol i ni dynnu sylw yn ein hadroddiad archwilydd at y datgeliadau cysylltiedig yn y datganiadau ariannol neu, os yw datgeliadau o'r fath yn annigonol, i addasu ein barn. Mae ein casgliadau yn seiliedig ar y dystiolaeth archwilio a gasglwyd hyd at ddyddiad adroddiad ein harchwilydd. Fodd bynnag, gall digwyddiadau neu amodau yn y dyfodol achosi i'r blaid beidio â pharhau fel busnes hyfyw.

- Gwerthuso cyflwyniad, strwythur a chynnwys cyffredinol y datganiadau ariannol, gan gynnwys y datgeliad, ac a yw'r datganiadau ariannol yn cynrychioli'r trafodion a'r digwyddiadau sylfaenol mewn modd sy'n rhoi cyflwyniad teg.

Rydym yn cyfathrebu a'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu ynghylch, ymhlith materion eraill, cwmpas ac amseriad arfaethedig yr archwiliad a chanfyddiadau archwilio arwyddocaol, i gynnwys unrhyw ddiffygion sylweddol mewn rheolaeth fewnol a nodwyd gennym yn ystod ein harchwiliad.

Defnydd o'n Hadroddiad

Cyflwynir yr adroddiad hwn i Aelodau'r Pleidiau fel corff yn unig, yn unol â gofynion Deddf Pleidiau gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000 a chyfarwyddyd arall a gyhoeddwyd gan y Comisiwn Etholiadol. Mae ein gwaith archwilio wedi'i wneud er mwyn i ni allu datgan i aelodau'r blaid y materion hyn y mae'n ofynnol i ni eu datgan iddynt mewn adroddiad archwilydd ac nid at unrhyw ddiben arall. I'r graddau eithaf a ganiateir gan y gyfraith, nid ydym yn derbyn nac yn cymryd cyfrifoldeb i unrhyw un ac eithrio'r Blaid ac Aelodau'r Blaid fel corff, am yr adroddiad hwn, nac am y farn a luniwyd gennym.

[redacted] ..... Dyddiad: 02-07-2024

[redacted]
Ar ran Llŷr James Cyf
25 Stryd y Bont
Caerfyrddin
SA31 3JS

DocuSign Envelope ID [redacted]

PLAID CYMRU

Cyfrif Incwm A Gwariant Cyfunol
Ar Gyfer Y Flwyddyn Yn Diweddu 31 Rhagfyr 2023

	Nodyn	2023	2022
		£	£
INCWM			
Incwm Rhoddion	2	**104,248**	98,929
Ffioedd aelodaeth a thanysgrifio		**391,373**	426,900
Incwm o weithgareddau codi arian	3	**26,674**	29,980
Incwm o weithgareddau masnachol	4	**2,497**	4,046
Incwm o gymynroddion		**57,553**	54,870
Incwm buddsoddi	5	**3,608**	3,925
Incwm Grantiau	6	**132,770**	137,272
Incwm o gynadleddau		**96,652**	108,705
Trafodion etholaethol	8	**109,909**	115,149
Cyfanswm Incwm		**925,284**	979,776
GWARIANT			
Costau gweithgareddau codi arian	9	**8,495**	5,905
Costau gweithgareddau masnachol		**16,715**	16,844
Costau Staffio	10	**537,916**	569,734
Gwariant Ymgyrchu	11	**32,791**	74,942
Costau eraill	12	**227,947**	211,754
Llog a thaliadau sy'n daladwy	13	**6,803**	7,495
Gwariant Cynadleddau		**65,332**	68,359
Dibrisiad	7	**14,985**	15,355
Elw o waredu asedau sefydlog		**-**	(13,303)
Cyfanswm Gwariant		**910,984**	957,085
Gwarged cyn treth	7	**14,300**	22,691
Trethiant	14	**(686)**	(636)
Gwarged Net am y flwyddyn		**13,614**	22,055

Paratowyd y cyfrif incwm a gwariant ar y sail bod yr holl weithrediadau yn weithrediadau parhaol

Mae'r nodiadau ar dudalennau 18 to 31 yn rhan o'r datganiadau ariannol.

DocuSign Envelope ID [redacted]

PLAID CYMRU

Cyfrif Incwm A Gwariant Y Blaid Ganolog
Am Y Flwyddyn Yn Diweddu 31 Rhagfyr 2023

	Nodyn	2023	2022
		£	£
INCWM			
Incwm Rhoddion	2	**101,927**	97,607
Ffioedd aelodaeth a thanysgrifio		**386,371**	421,969
Incwm o weithgareddau codi arian	3	**25,202**	28,219
Incwm o weithgareddau masnachol	4	**2,497**	4,046
Incwm o gymynroddion		**57,553**	54,870
Incwm buddsoddi	5	**3,608**	3,925
Incwm Grantiau	6	**132,770**	137,272
Incwm o gynadleddau		**96,652**	108,705
Trafodion etholaethol	8	**108,998**	113,680
Cyfanswm Incwm		**915,578**	970,293
GWARIANT			
Costau gweithgareddau codi arian	9	**8,440**	5,820
Costau gweithgareddau masnachol		**16,715**	16,844
Costau Staffio	10	**537,916**	569,734
Gwariant Ymgyrchu	11	**32,791**	74,942
Gwariant Eraill	12	**224,479**	202,470
Llog a thaliadau yn daladwy	13	**6,803**	7,495
Gwariant y gynhadledd		**59,695**	62,280
Dibrisiad	7	**14,985**	15,355
Elw ar waredu asedion sefydlog		**-**	(13,303)
Cyfanswm Gwariant		**901,824**	941,637
Gwarged cyn treth	7	**13,754**	28,656
Trethi	14	**(686)**	(636)
Gwarged Net am y flwyddyn		**13,068**	28,020

Paratowyd y cyfrif incwm a gwariant ar y sail bod yr holl weithrediadau yn weithrediadau parhaol

Mae'r nodiadau ar dudalennau 18 to 31 yn rhan o'r datganiadau ariannol

DocuSign Envelope ID: [redacted]

PLAID CYMRU

Mantolen Gyfunol
Ar 31 Rhagfyr 2023

	Nodyn	2023 £	2022 £
ASEDAU SEFYDLOG			
Asedau Sylweddol	15	**178,775**	190,266
ASEDAU CYFREDOL			
Dyledwyr	16	**28,454**	20,145
Arian mewn llaw ac yn y banc		**308,635**	300,216
		337,089	320,361
CREDYDWYR			
Symiau'n ddyledus o fewn blwyddyn	17	**(129,117)**	(137,494)
ASEDAU CYFREDOL NET		**207,972**	182,867
CYFANSWM ASEDAU LLAI CREDYDWYR CYFREDOL		**386,747**	373,133
CYFANSWM ASEDAU NET		**386,747**	373,133
CRONFEYDD			
Cronfa Gyffredinol	19	**203,609**	251,156
Cronfa Penodol	19	**183,138**	121,977
CRONFEYDD CRONEDIG	19	**386,747**	373,133

Cymeradwywyd y datganiadau ariannol gan Swyddogion y Blaid ar 02-07-2024 ac fe'u llofnodwyd eu rhan gan:

[redacted]

Marc Phillips
Trysorydd Cenedlaethol

Mae'r nodiadau ar dudalennau 18 to 31 yn rhan o'r datganiadau ariannol.

DocuSign Envelope ID: [redacted]

PLAID CYMRU

Mantolen Y Blaid Ganolog
Ar 31 Rhagfyr 2023

	Nodyn	2023	2022
		£	£
ASEDION SEFYDLOG			
Asedau Sylweddol	15	178,775	190,266
ASEDAU CYFREDOL			
Dyledwyr	16	28,454	20,145
Arian mewn llaw ac yn y banc		297,073	289,200
		325,527	309,345
CREDYDWYR			
Symiau'n ddyledus o fewn blwyddyn	17	(129,117)	(137,494)
ASEDAU CYFREDOL NET		196,410	171,851
CYFANSWM ASEDAU LLAI CREDYDWYR CYFREDOL		375,185	362,117
CYFANSWM ASEDAU NET		375,185	362,117
CRONFEYDD			
Cronfa Gyffredinol	19	192,047	240,140
Cronfa Penodol	19	183,138	121,977
CRONFEYDD CRONEDIG	19	375,185	362,117

Cymeradwywyd y datganiadau ariannol gan Swyddogion y Blaid ar 02-07-2024 ac fe'u llofnodwyd eu rhan gan:

[redacted]

Marc Phillips
Trysorydd Cenedlaethol

Mae'r nodiadau ar dudalennau 18 to 31 yn rhan o'r datganiadau ariannol.

DocuSign Envelope ID [redacted]

PLAID CYMRU

Datganiad Cyfun O'r Llif Arian
Ar 31 Rhagfyr 2023

	Nodyn	2023	2022
		£	£
Llif arian o weithgareddau gweithredu	20	**11,913**	51,593
Mewnlif arian net o weithgareddau gweithredu		**11,913**	51,593
Llif Arian o weithgareddau buddsoddi			
Prynu asedau sefydlog sylweddol	15	**(3,494)**	(2,138)
Enillion o waredu asedau sefydlog	15	**-**	63,327
Cynnydd / (Gostyngiad) net mewn arian / cyfwerth ag arian		**8,419**	112,782
Arian a chyfwerth ag arian ar ddechrau'r flwyddyn		**300,216**	187,434
Arian a chyfwerth ag arian ar ddiwedd y flwyddyn		**308,635**	300,216

Mae'r nodiadau ar dudalennau 18-31 yn rhan o'r datganiadau ariannol.

DocuSign Envelope ID [redacted]

1. POLISÏAU CYFRIFO

Gwybodaeth gyffredinol a sail paratoi

Nid yw Plaid Cymru wedi'i hymgorffori yn y gyfraith ac felly nid yw wedi'i rhwymo gan Ddeddf Cwmnïau 2006. Mae'n ofynnol i'r blaid baratoi datganiadau ariannol yn unol â Deddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferendwm 2000 ("PPERA"). Cyfeiriad y blaid yw Tŷ Gwynfor, Marine Chambers, Anson Court, Glanfa Iwerydd, Caerdydd, CF10 4AL

Mae'r datganiadau ariannol wedi'u paratoi yn unol â safonau cyfrifyddu cymwys gan gynnwys Safon Adrodd Ariannol 102, Y Safon Adrodd Ariannol sy'n Gymwys yn y DU a Gweriniaeth Iwerddon (FRS102). Mae'r datganiadau ariannol wedi'u paratoi ar sail busnes hyfyw o dan y confensiwn cost hanesyddol. Mae'r datganiadau ariannol yn unol â'r canllawiau a gyhoeddwyd gan y Comisiwn Etholiadol. Mae'r gofyniad datgelu yn Adran 1a o FRS102 wedi'i gymhwyso ac eithrio lle mae datgeliad ychwanegol yn ofynnol gan y canllawiau a gyhoeddwyd gan y Comisiwn Etholiadol neu lle mae'r ofynnol i ddangos darlun cywir a theg.

Cyflwynir y datganiadau ariannol mewn sterling, sef arian cyfredol gweithredol y blaid wedi'i dalgrynnu i'r £ agosach.

Mae'r polisïau cyfrifyddu arwyddocaol a ddefnyddiwyd wrth baratoi'r datganiadau ariannol hyn wedi'u nodi isod. Mae'r polisïau hyn wedi'u cymhwyso'n gyson ar gyfer pob blwyddyn a'u cyflwynwyd, oni nodir yn wahanol.

Busnes Hyfyw

Ar gyfer y flwyddyn ariannol dan sylw mae'r blaid wedi dychwelyd diffyg cyfunol, cyn treth o £14,300. Ar ddiwedd y flwyddyn roedd gan y blaid gronfeydd arian wrth gefn cyfunol o £308,635.

Yn gyffredin â phleidiau gwleidyddol eraill, mae Plaid Cymru yn dibynnu ar aelodaeth ac incwm codi arian i gwrdd â chyfran helaeth o'i gwariant, gan gynnwys y rhan fwyaf o'i gwariant cylchol. Mae'r blaid hefyd yn derbyn rhoddion a chymynroddion gan gefnogwyr y blaid. Natur incwm o'r fath yw bod elfen annisgwy yn gysylltiedig ag ef.

Mae'r Trysorydd Cenedlaethol wedi paratoi cyllidebau Incwm a Gwariant a rhagamcanion llif arian ar gyfer y flwyddyn hyd at Rhagfyr 2024 ac mae'n fodlon bod gan y blaid ddigon o aelodaeth, incwm codi arian, cronfeydd wrth gefn, grantiau ac incwm masnachu i alluogi'r blaid i gyflawni ei rhwymedigaethau ariannol, wrth iddynt ddod yn ddyledus ac i gyflawni ei amcanion sefydliadol a gwleidyddol. Mae hyn yn cynnwys asesu'r effaith ariannol yr Etholiad Cyffredinol 2024 ar y blaid.

Mae'r Trysorydd Cenedlaethol yn teimlo bod yr adnoddau arian parod a ragwelir ar hyn o bryd ac yn y dyfodol yn ddigonol i alluogi'r blaid i wynebu heriau yn y dyfodol.

DocuSign Envelope ID [redacted]

1. POLISÏAU CYFRIFO (parhad)

Yng ngoleuni'r uchod a thrwy wneud ymholiadau a chan ystyried yr holl amgylchiadau, mae'r Trysorydd Cenedlaethol yn ystyried ei bod yn briodol parhau i baratoi'r datganiadau ariannol ar sail busnes hyfyw.

Sail Cyfuno

